W 2
2209
1386 TJ 689 (13)

# CYFFES OFERDDYN.

## *YN DDWY RAN.*

UNIV. COLL. OF WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

O WAITH RICHARD PARRY,
Athraw Ysgol yn Sir Fôn.

*ABERYSTWYTH: Argraffwyd gan James a Williams.*—— ----1811.

### RHAN I.

IEUENCTID y gwledydd, a garo gerdd newydd,
Gwrandawed pob glân-ddyn ar Hanes Oferddyn;
Rhyw draethawd sy gen'i, ystyriwch fy 'stori,
Nid 'stori anwiredd, ond 'stori wirionedd:
Fel yr oeddwn i'n 'smala, ryw ddydd o'r cynhaua',
Yn rhodio yn o bruddlon, y'mysg fy ysgolheigion,
Gwelwn hên ŵr go hynod, tuag atom yn dyfod,
A dagrau ar ei ruddiau, a'i ddillad yn ddrylliau,
Ni welswn er ystalwm hên ddyn mor noeth-lwm,
Fe gyfarchai well i mi, a'i lygaid yn llenwi,
Ac a griodd yn greulon pan ganfu 'r ysgolheigion,
Mi a ofynais o'r diwedd, Fy ewythr, ŵr mwynaidd,
Pa beth sy 'n eich blino, pan ydych yn wylo?
Fe'm hattebai 'n galonog, dan ysgwyd ei benglog,
Yn yr ysgol y bum innau, amryw flynyddau;
Ped fuasai lwc i mi, a grâs i ymgroesi,
Mi allaswn fod heddyw â pheth ar fy helw,
Ac ar fy nghefn gotwm, yn lle bod yn noeth-lwm;
Mi ddyweda i chwi'r moddion, ond galw 'r ysgolheigion,
Yn hynod fy Hanes, fy 'm Coffa, a'm holl Gyffes,
Fe allai bydd i'r 'stori, fod yn rhybydd i'r rhei'ny,
Chwi glywsoch fel y dyweden', mai da ydyw côf bachgen.
'R oeddwn innau ar y cynta', cyn siongced a'r sionga,
A chyn gwyched fy siacad a'r gwychaf yn y farchnad,
A chystal fy rheol a neb yn eich ysgol,
A'm rhieni yn oludog, yn byw yn gyfoethog,
Gydâ 'r goreu yn eu manol am lwyddo o'u dâ bydol,
Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy anrhydedd!)

I gael eu holl gyfoeth, er 'mod i'n awr yn ddyn noeth,
Cael moethau da ddigon, a theganau gwychion;
Pan ddois i fedru siarad, i'r ysgol fe'm gyrad,
A siarso fy meister, fy nghym'ryd i'n *dender*,
A gwylied fy chwipio, beth bynag a fytho,
A gwylio fy nwrdro, rhag ofn i mi grio.
Mi a fum flwyddyn a hanner yn cywilyddio fy meister;
Pawb yn fy nghym'ryd yn *scorn*, heb fedru mo'm llyfyr corn;
Mi fu'm flwyddyn a chwarter cyn medru fy mhreimer,
A meistr heb lyfysu, er dim, fy ngheryddu,
A phawb ereill yn yr ysgol yn myn'd rhagddynt yn reiol,
A minnau yn un camsawn, heb na dysg na dawn;
Fe ddaeth rhai o'm cymdogion, a hwythau yn ysgolheigion,
I ddweyd wrth fy nhâd a'm mam, eu bod yn gwneyd â mi gam
Yrawn yn ben-galed fel y graig, ac nad awn byth yn 'sgolhaig
O'r diwedd rhoisant *ordours* i meistr gael ei *'umours*:
Ond cyn pen deu-ddydd, mi welwn ffasiwn newydd,
Mi glywn fy meistr yn fy ngalw, ac yn codi 'r wialen fedw,
Minnau, fel y byddwn arfer, a drois ato fy nghrwpper;
Ond mi clywn yn o chwipyn yn 'maflyd yn fy nghopyn,
Ni ches atteb nac odfa nad oedd tîn goch yn ucha',
Onid oeddwn yn dawnsio, wedi iddo beidio,
Awr fawr a hanner, heb na chrythor na ffidler.
Mi fum y rhan hwnw o'r diwrnod yn ddig di-gydwybod,
Fy meddwl i oedd anfuddiol, nad awn i byth i'r ysgol,
Os cawn i ben y ffordd adrau, (draen yn eu capiau)
Myned adreu 'r noson yn ddigon trwm fy nghalon,
Tan och'neidio bob amser, a grymau 'r hyd fy nghrwpper.
Fy nhâd a mam, yn o brysur, a ddeall'sant fy nolur,
Yn arafaidd, hwy a ofynen,' Beth ddarfu i ti, 'machgen?
Da oedd genyf gäel achlysur, i achwyn ar fy meistir,
A thybied, yn ddi-fadda', y cai fe'i grogi o'r lleia';
Ni chlywn ddim gwell cysur, na Hai! hai! cymhesur,
Nid am eich daioni y cawsoch eich cospi;
Byddwch fachgen da weithian, yn hollol, o hyn allan.
Pan glywais i hyny, ni fedrais i ond synu,
Ac nid oedd waeth i mi o gàrai, yn yr ysgol na chartrau.
Mi fum wedi hyny dri-mis yn ddigon gofalus,
Ac yn cadw fy ysgol yn dda dda rhagorol;
Wrth hîr gael fy arbed, mi es eil-waith yn ben-galed,
Heb leicio mo'm Gwylmabsant, dechreuais chwareu *truant*;
Ond rhyw ddiwrnod ar fy lledol, fe'm canlyned i'r ysgol;
Yna mi glywn fy meister, yn galw ar ei foniter;

*Take him up, John Wood, I'll whip him to the blood!*
Pan gym'rwyd fi i fynu, mi ddechreuais gicio a thaflu;
*Hold him up*, meddai meister, *I'll pay to his hamper*:
*Will you play truant again, syre? No, no*, meddwn innau,
Ces fy chwipio yr amser hwnw, onid oeddwn i hanner marw.
Mi a fum wedi hyny flwyddyn yn oreu un o honyn',
Nes y dysgais i yn rhigyl ddarllen fy Meibyl,
A meistir yn fy nghanmol yn oreu yn ei ysgol,
A myn'd at fy nhâd fy hun, i geisio *Accidence* chwipya,
A bod yn hwnw flwyddyn yn fawr fy anffortun,
Nes *constro Ngrammer* mor rhigyl a mhader,
A chael *rules* yn y man, i *repeato* pob rhan;
'Nol hel pob *prables*, mi ges *Æsop Fables*,
Bum yn hwnw yn hir efrydd, yn dysgu dywedyd celwydd,
Ond mi es adreu ryw noswaith, yn dda iawn fy ngobaith,
I mi gael esgus rhagorol i ymadael â'r ysgol,
Gan ddywedyd nad oeddwn i'n dysgu ond ynfydrwydd a
'storïau celwy',
Ac y cawn i wersi o'r fath hōno, heb dalu dim am dano:
Fy nhâd a mam pan glywsant, trwy dêg a'm perswad'sant,
Os canlynwn i ddysgeidiaeth y down i well gwybodaeth:
Ryw sut, rhag eu digio, mi es ati 'r ail-dro,
Mi fum yno gwrs anian yn gwneyd a fŷnwn fy hunan,
Yn tòri perllani, ac yn yspeilio gerddi,
Yn gwerthu fy llyfrau gael arian at gardiau,
Tŷnu fy mytymau, a'u chwareu ar y disiau,
Gadael fy nillad ar y llwyn, a'r lladron yn eu dwyn,
Tŷnu at y tenis, a chael coledd y celis,
Curo â phob hogiau, ymladd â'm sodlau,
Nes oeddwn i yn mhen y flwyddyn, yn 'sgarbwd noeth-
lymyn.
Pan deallwyd fy nghastiau, mi ges aros gartrau,
Mi glywn fy nhâd a mam yn llidus yn sôn am fy rhoi ar brentis;
Os y fi a'i dewiswn y cawn i'r grefft a fŷnwn:
Finnau'n o 'smala a'u hattebwn yn ara'.
Os cawn i newis celfyddyda', y gwnawn i brentis o'r brynta'.
Hwy fuant ennyd yn ymryson am ddewis celfyddydon:
Fe fŷnai mam yn ddioedi fy ngwneyd yn Boticari,
Ac yn burion Doctor Physig, i fyw fel gŵr boneddig:
Fe ddywedai nhâd, cyn cawn i fyn'd yn Ddoctor, y cawn i
ddyrnu yn y 'sgybor;
Nac yn Boticari, ni chawn i fyned un o'r rhei'ny,

Am eu bod hwy'n lladd ac yn 'speilio pawb ddêl dan eu dwylo
Fe ddywedai mam, fy mod i'n 'sgolhaig odiaeth, y cawn i
fyned yn Wr y Gyfraith:
Mi attebais inneu, nad awn i byth yn Dwrneu,
Ac nad oeddwn o râdd ddyledus i fyn'd yn Gounseler neu'n
Ustus.
Hwy fuant yn ennyn chwedleua am gael i mi fraint o'r fwya':
Fe roi nhâd fi'n saer, fe roi mam fi'n Faer;
Fe roi nhâd fi'n Failif, fe roi mam fi'n Sirif;
Fe roi nhâd fi'n Borter, fe roi mam fi'n Superviser;
Fe roi nhâd fi'n Belman, fe roi mam fi'n Ecseisman:
Cyn diwedd, rhoi nhâd fi'n Dincer, gwnai mam fi'n 'Sgwier.
Mi fum felly 'n hir yn gwrando, ar fy nhâd a'm mam yn ymbyngcio,
Y naill yn fy mwrw, a'r llall yn fy nghadw.
Ebe'r finnau, Ni enwasoch etto mo'r grefft wyf yn ei leicio,
Os câf fi ddewis fy nghelfyddyd, myfi a'i henwa'n ddiwyd,
Mewn bwriad digynhwr', myn'd yn brentis i Dafarnwr,
A thyna'r fan orau i ddysgu pob castiau,
Ac i glywed pob newyddion a fo gan ofer-ddynion,
Cael cennad dros ennyd i dreio'r gelfyddyd,
Ac y'mhen ychydig amser myned JOHN yn drêch na'i feister
Cael bod weithiau'n Dapster, ac weithiau'n Horsler,
Weithiau canu a dawnsio, weithiau'n cael fy nghuro,
Weithiau'n llawen ddigon, ac weithiau'n drwm fy nghalon,
Nes oeddwn i mor gynnefin o drîn bonedd a chyffredin,
Ac nid oedd arna'i ofn un-dyn os cawn i lonydd ganddyn',
Na phrîs o neb a'm cyfarfyddai, na chan neb am danaf finnau,
Ac mi aethum mor ddibrisied a'r dibrisia ag a aned,
Nac o fuchedd yn fy nghanlyn, mwy na'r llwdn mochyn,
Ond tyngu a rhegu, chwareu a chwerylu,
Tynu ffrae y'mhob tyrfa, a fi'n cael y gwaetha';
Os rhown i un ddyrnod, mi a gawn ddeuddeg ffonod,
A bod wythnos yn gorphwys a'm haelodau'n glwyfus,
Yn griddfan ac yn gweiddi, ac yn ffaelu a chodi.
Mi gymmerais feddwl cadarn i ymadael â'r tafarn,
A throi helbio bob bariaeth, â'm bryd ar hwsmonaeth,
Myned adre'n ŵr sobor, a bod yno dymmor,
Fy nhâd a mam yn fy nghanmol, fy mod i'n Hwsmon reiol,
Minnau'r nôs yn myned allan, lle clyw'n i fod sucan,
Ped fae ond dau-ddyn diddefnydd, byddwn innau'n drydydd;
Mi fum felly 'n dal allan hyd oni ddarfu'r arian,
Yna mi a ddyfeisais, ffordd arall a gymmerais,

Heb fedru ymddiddyfnu pan âi fy nhâd a mam i gysgu,
Mi ddygwn yr ŷd o'r sachau, i roi am gwrw tafarnau;
Dwyn y caws, a'i guddio, a'i newid am ddobacco;
Dwyn y bara a'r 'menyn, a dwyn y cîg i'w canlyn,
A'u gwerthu dan dîn, i'r Hwcsters cyffredin,
I gael arian yn fy mhoced i fyn'd i garu merched,
Cadw nosweithiau llawen, a gwasgu pob mersen,
A'r rhai 'n pan gaent gyflau yn chwerthin yn eu dyrnau,
Dan godi bysedd yn fy ngwegil, a dweyd fy mod yn ddyn cynnil,
Pan fyddwn innau 'n talu'r scorion o fesur y goron,
Am gwrw ac am fragod yn moliau'r hopeiod;
A'r sawl a f'ai 'n cael fwyaf a feiai arna 'i gyntaf.
Cyn diwedd hyn o bowtri, daeth gwragedd y piseri,
At fy nhâd a mam yn brysur, a hyn yn llawn llythyr,
Fy mod i'n cadw *reied*, ac yn caru 'r merched,
Ac yn swagro pob moddion, yn ail i'r mâb afradlon,
Fe ddechreuai 'r hên wreigan ddanwsio cuwch a'r wybran,
Ac fe fu rhyfel cynddeirioca rhwng fy mam a finnau,
Na bu agos rhyngwy' i a thyngu yr awn i ffwrdd o'r gwely
I'r môr i'm boddi, neu i'r tân i losgi,
Ac oni chawn i lonydd, y gadawn i'r gwledydd,
Ac yr awn i o'r deyrnas, oni chawn i wneuthur fy mhwrpas;
Pan glywodd fy mam fi 'n tanio, dechreuodd lareiddio,
A dweyd wrthyf am ymgroesi, a pheidio â'm drygioni,
A finnau mor ddiathro nad oeddwn i'n prisio,
Ond canlyn cwrs natur tu hwnt i bob mesur:
Ond y'mhen amser fy rhieni a bwyntiodd ddydd dyweddi,
Rhyngwyf a merch i gymmydog, hwn oedd ŵr arianog,
Gan dybio mewn môdd anial, ond fy rhoi dan bwys gofal,
A hyny mewn amser, y mendiwn i lawer;
Yr own innau 'n leicio 'mhriodas yn abl cyfaddas,
Mor gymhwys yn gosod yn flŵch a'r cyfrwy i'r hŵch;
'R oedd hi yn eneth ben-ffôl, a finnau 'n llengcyn glwth-fôl;
Gwell y medrai hi alw am olwyth, na chadw tŷ a thylwyth,
Gwell y medrwn innau gwmp'niaeth, na dilyn hwsmonaeth.
Ond i dewi sôn, a therfynu pob ymryson,
'Roedd pob peth wrth fy mhwrpas tra paro 'r neithior a'r briodas,
Cawn fod yn llawen wythnos, er eu gwaethaf, ond aros,
Ac ar ol hyny o bowtri, ni wyddwn beth a ddeuai i mi;

Daeth y ddau hên-ddyn i'r un-lle, fy nhâd i a'i thâd hithau,
I gyd-seintio rhyngthyn', ac i gymmeryd i ni dyddyn,
A rhoi stoc i ni arno, ac ŷd i'w lafurio,
A gwneuthur pob peth yn dwtnas, yn y tai ac o'u cwmpas;
Ni fuom dros ychydig yn byw yn foneddig,
Heb bris ar ein cyfarch, pa du i'r tŷ yr heuid cywarch;
Yn cadw gweision i ddiogi, a morwynion i ymgoethi,
Pan b'ai ereill gydâ 'u cynhaua', byddwn innau 'n y tafarna',
Prynent hwy bladur a chryman, prynwn innau bot a chwpan
A llawer difyrach oedd genyf gyfeillach
Llu o oferwyr na llu o fedelwyr:
A'r wraig o'r tu arall, yn hyswi feddal gall,
Yn cadw cwmpeini i wragedd y piseri,
Yn rhanu llaeth ac ymenyn am eu chwedlau Gwanwyn,
Yn codi 'r naill a gostwng y llall, heb edrych unwaith p'le
b'ai gwall,
Heb na throell na gardie ar lawr yn un lle,
Yn llaw 'r feistres na 'r forwyn, un dydd o'r flwyddyn,
Ac felly 'n cyd-redeg rhoi 'r cwbl i ehedeg,
Fel dau fae 'n dyfeisio y ffordd i ddinystrio,
Nes i ni fyn'd felly heb ewin i ymgrafu.
Wel dyna i chwi Nghyffes iawn hynod a'm Hanes,
Fy Ie'ngctid sy' n dysgu, cymmerwch rybydd o hyny;
Ymgroeswch yn bybur, cyn y bo rhy hwyr:
Cyn myn'd o'r defaid allan mae cau drws y gorlan;
Cyn barn y mae dadlu, cyn henaint mae gwellu:
Heddyw mae edifaru, rhag mai rhy hwyr y foru.

## RHAN II.

Y CYMRU cyffredin, o garedd lîn gwerin,
Rai llawen di-giwed, afieithus, gwrandawed,
A phawb anllyth'renog, anghelfydd, anghenog,
Sy 'n byw mewn tylodi, trwy seguryd a diogi;
'Rwy 'n gyru o'm gwirfodd fy rhagymadrodd,
Nid at ddysgawdwyr, nac ereill gywreinwyr,
Sy 'n byw mewn diwydrwydd, wrth reol gonestrwydd:
Ond i'r efryddion, oferwyr afradlon,
I chwi 'r wy 'n anrhegu hyn yma i'ch difyru;
Sef Ail Ran o destun Cyffes OFERDDYN,
Y môdd y dygwyddodd, i'm gael cyflawn ymadrodd;
Fel y dywed yr hên ddyn, Cynt y daw deuddyn
I gyffwrdd â'u gilydd, na dau fynydd:

Felly yr hên-ŵr noeth-lwm a welswn er's talwm,
Ryw noswaith o'r Gaua'. a ddaeth ata 'i lettya;
Yna wrth ymddyddan â'n gilydd yn gyfan,
Mi ofynais i'r hên-ddyn y geiriau sy 'n canlyn:
Fy ewythr oedranus, chwi a ddywedasoch eisus
I'm hanes eich mebyd, a dyddiau eich ie'ngctid,
Môdd y treuliasoch yn ofer hanner eich amser;
Mi chwennychwn weithian gael gwybod yn gyfan,
Eich damweiniad trwstan o hyny allan,
Eich sylwedd a'ch sâl fraint, a'ch dull yn eich henaint?
Yntau a'm hattebai, Chwi roisoch dasg arna 'i,
Ormod debyga 'i o hyn dan y borau;
Mi draethaf i chwi 'n groyw y gwir nesa' y gallw',
O 'wyllys fy nghalon, fy 'marweddiadau 'n union,
A'm Hoferedd cyhoedd, fel y mae, ac fel yr oedd.
Mi ddywedais i chwi eisoes y rhan hòno o'm heinioes,
Y môdd y priodais, a'r fangced a gefais,
A chael tan ein dwylo o'r goreu ddigon i ddechreu,
Fel yr aethom mor a'mhwyll trwy 'r cwbl mewn byrbwyll,
Myfi yn wan fy hwsmonaeth, a hithau 'n sâl ei hyswyaeth,
Erbyn yr amser rheita, heb dalu mo 'r brycha';
Hi yu iraidd gangen, yn eppilio fel cwningen:
Pan oedd pob peth yn methu, y plant oedd yn ffynu,
Holl waith y wreig-dda ydoedd mammaetha,
Y rhan amla 'n wastad â'i bol at ei llygad,
Neu y'nghil y pentanau â chyw ar ei bronau;
A minnau 'r mâb afradron yn hau fy ngheirch gwylltion!
A'r cynhauaf heb fedi, ond ffrwyth bariaeth a ch ledi,
A'm tiroedd dan ardreth, allan o gyffeth,
Heb ddwyn gwair na phorfa, nac ŷd cynhaua';
Ond anifeiliaid y pentrefi trwy 'r flwyddyn yn ei bori,
A'm hardreth i'n cerdded dair blynedd, a'r *arrears* yn ddyled
A rhyw un yn gofyn bob dydd yn y flwyddyn,
A rhai yn fy siwio am ddyled cwrw a thobacco,
Ac am bob ofer fargenion, yn tòri fy nghalon:
Daeth y meistir tîr ac a glybu fy mod i'n tori fyny,
Ac a 'sgubodd y cyfan yn y tŷ ac allan,
Ni adawodd werth hatlin' ond y wraig a'r plant bychin,
A throi rhai 'n i gyd weiddi tros y drws i'w crogi,
Yno ymadael â'i fythod fel haid o fedlemod,
A myn'd ymaith tan weiddi at ein rhieni,
I geisio ymwared heb ammeu, rhag marw o wall ac eisieu;
Bod ennyd yn gwrando ar bawb yn ein dwrdio;

Ni gawsom ein swcro rai dyddiau gydâ 'n tadau a'n mamau,
A'n hysgymygu 'n greulon am fod yn afradlon:
Ar ol iddynt flino yn ein bygythio,
Yn union yr un fâth a llygoden dan balf y gâth,
Yn cael dannod ein meddaldra, heb le i atteb mo 'r petha':
O'r diwedd darfu iddynt ranu'r plant rhyngddynt,
Un gydâ 'i daid a'i nain yma, ac un gydâ'i daid a'i nain yna,
Un gydâ 'i ewythr i'w gadw, un arall at fodryb acw,
A pheri i ninnau ymdaro drosom ein hunain neu beidio;
Nyni 'n ifaingc mewn iechyd, nid oedd 'lusen roi i ni fwyd;
'Roedd y wraig yn hŷ ar ei mham, nid âi hi allan un cam,
A rhwng bôdd ac anfodd yno hi dariodd:
'Roeddwn ninnau mewn gwall go', fel dyn â'r bendro;
Ond mi aethum i rodio lle gwelswn gael groeso,
A pharch a chymmeriad pan oedd arian yn y boccad,
Ond garw i mi 'r breu dwyd, 'roedd pawb wedi newid.
'Roeddwn innau fel un o'r India, nid oedd neb a'm hadwaena'
Mi es i'r tafarn tirion, gan dybio yn fy nghalon,
Y cawn i greso dihareb a chwyno i mi 'ngwrthwyneb;
Oh! 'roedd yma gyfnewid hynod, y wên dêg wedi darfod,
Gwraig y tŷ cyn sured â'r finegr i'w gweled,
Yn edrych arna 'i mor rhywiog ag ar gî cynddeiriog,
Heb ddywedyd gair o'i min mwy nag o'i thîn;
Ni fedrwn i ond synu 'n ebrwydd, feddwl am fy ynfydrwydd
Yno y cawn weled mewn 'stafell rai yn yfed,
A'm gwelsai o fewn y flwyddyn cyn gynted ag un-dyn,
Heb wneyd dim cownt o honaf, chwaethach yfed ataf:
Clywn hwy'n sisial ac yn chwerthin, Ffei, dacw Oferddyn,
A'r mwyaf diddeunydd a fu erioed yn y gwledydd.
Ebe'r fi, rhyngo' a fy hunan, y mae pobl yn ffals anian;
'Roedd y rhai 'n y dydd arall yn fy ngalw yn ŵr call:
Pan oedd genyf arian i dalu am y cyfan,
Mi fyddwn cystal fy synwyr y'marn y cwmp'niwyr,
A chystal fy hwsmonaeth a'r goreu o'r gym'dogaeth.
Myn'd i fy fford tan och neidio, heb gael yma ond fy scornio
Mi es i un o'r siopau, lle talaswn i bunnau,
Am frandi a thobacco, a dysgwyl cael greso,
A gofyn a gawn i 'nghoelio am ddimai-werth o dobacco?
Nid gwell oedd eu moesau na gwragedd y tafarnau,
Ni chawn i ddim yno ond a dalwn i am dano.
Mi gymmerais fy atteb, â'r dagrau ar fy wyneb,
A myn'd ymaith yn ddirym, un llaw'n wâg, a'r llall heb ddim
Ni chlwyn fy 'nhraed i'm cario i un lle oddi yno,

Gan drymed oedd fy nghalon ar ol fy nghymdeithion.
Yn y man mi gym'rais feddwl, y'nghanol fy nhrwbwl,
Ac addunedais am fy hunan, y byddai i'm o hyn allan,
Os dewn i berchen da eilwaith y gwnawn i well hwsmonaeth
Y mynwn i brofi 'nghyfell cyn ei dreio 'n rhy bell:
Mi fum felly dair blynedd yn dwyn mawr anhunedd,
A chynddrwg fy maitcan, a phe b'aswn rhwng y tân a'r pentan
I roi i mi ryddid yn ddinam, bu farw 'nhâd a mam,
Gwnaent fi 'n '*secutor* i gael eu holl drysor;
Dyna 'r amser arbenig yr es i'n ŵr boneddig,
A'r flwyddyn hòno hefyd, i 'chwanegu fy ngolud,
Bu farw nhâd a mam y'nghyfraith, gadawsant i ni eu cywaeth
Y'mhen ychydig ddyddiau bu farw fy ngwraig innau;
Mi fum dridiau ac wythnos, neu 'n agos i bythefnos,
Yn galaru 'n greulon, y'mron tòri 'nghalon,
Gan faint oedd fy mhwar, mi droes heibio fy ngalar,
Ac ymgysurais beunydd y cawn fy myd o newydd;
'Roedd gyny', dybiaswn, faint fyd a fynwn
O arian i'w gwario, a digon i'w spario,
Nid posib' yn fy meddwl i mi byth wario 'r cwbwl.
O dipyn i dipyn, mor union a'r llinyn,
Mi es ar hyd yr hên lwybrau, i deiau 'r tafarnau,
Heb gofio am yr adduned a wnaethwn i yn fy nghaethiwed,
Ond bob amser yn feddw tra fum i yn ŵr gweddw,
Myn'd i ffwrdd i'r ffeiriau, a bod yno dridiau,
Cymmeryd march da danaf, a'i yru hyd yr eithaf,
A'i adael allan yn yr oerfel, heb na bwyd na stabel,
I starfio 'n newynog, a chyn feined a'r pennog,
A minnau 'n byw 'n llawen, gydâ'r bibell a'r fflagen:
Pan darfyddai 'r arian, mi gychwynwn allan;
Gofynai gŵr yn fy ymyl, A drwciwch chwi 'r ceffyl?
Rho'i i mi goron neu fflorin, gydâ rhyw hên furgyn,
O sgerbwd saelaf a fuasai erioed o tanaf,
A'i gael tranoeth mewn ffôs wedi trengu ddechreu nôs:
Ni byddai i mi am fy march gorau ond croen a hên bedolau
'Doedd bwrw hyny ond siawns, ni chae dòri ar fy nawns;
Lle clywn fod cymmanfa chwareuaeth neu dyrfa,
Mi awn cyn wyched a'r paen, heb neb o'm hol nac o'm blaen
Gadael syber-wragedd a merchedau i warchad i mi gartrau,
A thalu mawr-brîs i'r rhei'ny am bobi ac am olchi,
Heblaw a godai rhai 'n â'u dwylaw eu hunain.
Os golchent ddau bâr o ganfasau hwy ddygent y gorau,
Ac a godent gri a gweiddi, eu dwyn oddi ar y perthi;

Dwyn fy nghrŷs meinau, a'i dori'n gadachau;
Dwyn y blawd wrth bobi, dwyn y 'menyn wrth gorddi,
Dwyn fy mhais a'm siaced, dwyn y carth o'r pared,
Dwyn y gwlân o'r fudur, fel y dywed Shon Tudur;
A mwy o'm dâ a ddyfethan' nag a ddyfethwn i fy hunan.
Mi gymmerais feddwl call, i geisio gwraig arall,
Os ynddi b'ai daioni, y gwnai hi'n well na'r rhei ny.
Mi es mewn sidan a melfed i ffwrdd i garu merched;
Os ffôl a fum i'n llangc, ac ofer yn ieuangc,
Saith ffolach yrwan y'marn pob ffislan,
Gan chwerthin yn fy llygad, a'm galw i'n gariad;
Mi a flinais ar gymhendod gwenieithus genethod,
Ac mi aethum yn ŵr hoyw i garu gwraig weddw,
'Roedd hòno 'n un powsi, ar ei gŵr wedi mhowi,
Ac mor wastad ei rheswm a *justice y quorum*,
Hi wnai bob hyswyaeth o'r oreu yn yr ardalaeth,
Hi wnai'r dw'r yn llefrith, hi wnai'r haidd yn wenith,
Hi wnai fêl o'r wermod, hi wnai'r byd â'i thafod;
A'r tro cynta'r es i ati hi addawai mhriodi:
Myn'd i ffwrdd yn ben-boeth i brynu *licence* dranoeth,
I'w phriodi hi'n ddystaw, a hyny allan o law.
Myn'd i'w hol hi adrau, a dechreu cyfri'r penau;
'Roedd plant bach gand'i hithau, ben am ben a minnau.
Daeth tylwyth fy ngwraig gynta', pan glywsant hyn yma,
Hwy ŷrent fy mhlant innau yn lluoedd i mi adrau,
'Roedd ynowolwg gethin rhwng y ddau lîn,
Lonaid tŷ bychan ar draws eu gilydd yn goran,
Ond nid oedd help am hyny, 'roedd yn rhaid boddloni:
Ond beth sydd waeth na'r cwbwl, i 'chwanegu fy nhrwbwl,
Erbyn treio fy marced, yr oedd hi'n gancr o ddyled,
'Roedd cwmp'ni ewyllysgar yn cyrchu i'm neithiai,
Nid i roi rhoddion, ond i ofyn dyledion;
Troi'n ddyledwr i hwn heddw', troi foru i hwn acw,
Troi dranoeth i'r trydydd, troi'n *bankrupt* i un drenydd:
Un arall a ddywedai, Oni chai fe *bond* a meichiau,
Neu arian, y gwnai hwn fy siwio yn y sesiwn;
Gwerthu ceffyl a chaseg, gwerthu ychen a gwartheg,
Gwerthu môch a defaid, a phob anifeiliaid,
I ŵr goludog pwerus, gan dybio fy mod i'n gyfrwys,
I gael arian ddigon i dalu'r dyledion.
Myn'd i'w gofyn yn mhen ychydig, 'roedd hi wedi cael eu benthyg;
Erbyn claddu ei gŵr, a chodi ei phen o'r dw'r;

Nis gwyddai'r gŵr nes considro nad oedd iddo chwaneg etto
Mi fum felly'n talu'n bybur tra par'odd y gwêr a'r pabwyr,
Heb spario na dâ nac ariap, a'r cwbl yn rhy fychan.
O'r diwedd dechreu'sant chwerwi arna'i, a'm siwio yn y mân gwrtau,
A'r cwynion yn dyfod allan, o fesur dwsin yn yr un-fan,
A'r baili côch y dyddiau nesa', a ddaeth ataf i afaela,
Cario o'r tŷ allan y pedill a'r crochan,
Y twba a'r noe bobi, a phob mâth o lestri;
Gorfod cilio i rywle rhag ofn myn'd a minne'.
Os byddai dim yn y boced, awn i'r tafarn i fwrw fy lludded,
A dyfod adre'n hanner meddw, mi gawn y wraig yn chwerw,
Yn curo'r coed o'i chwmpas, gan faint oedd ei hanras,
Taro wrth beth difeth, heb wneyd dim ond cwmp'niaeth,
Fy ngalw i'n ffalstwr dau wynebog, yn gnâf, ac yn rôg,
Yn uffern y byddai f' enaid am wneyd cam â'i hymddifaid:
Ni byddai hi un awr o'r diwrnod heb ollwng ei thafod,
Nac yn ei hiechyd ei hunan ond pan fyddai hi'n 'scoldeian;
Ac os byddai dim yn dygwydd a fyddai gwell na'i gilydd,
Hi ranai'r cyfan rhwng ei phlant ei hunan,
Ni chai fy mhlant innau ond y ffâr a fyddai,
A'u paffio bob ennyd, a'u galw'n gywion gwenwynllyd,
Rhag iddi lâdd y rhei'ny, mi a'u gyrais i weini,
A'r rhai lleia'n haid i hela eu tamaid;
Er hyny ni byddai hi syfyl, ond tŷnu rhyw gweril,
Pan fyddwn ddystawa, hi ddechreuai fel yma,
Dywedai, Nêf i enaid IANTO, fel hyn ac fel hyn y gwnai fo
Yna dyna hi allan nes byddai'r creigiau'n disbadan,
A da fyddai'r ymdaro os peidit a churo:
Ni a fuom lawer nôs yn treio am y clôs,
Hi â'r letbren, a minnau â'r mopbren.
Bu llawer *battle* felly nes i mi feistroli,
Ac fel yr oedd hi'n heneiddio, hi a beidiodd a churo,
Ond ni pheidiodd ei thafod araith ellylldod,
Nes daeth angeu chwerwedd a'i dwyn hi o'r diwedd,
I roi i mi ollyngdod o lawer o drallod.
Ac er maint fy anffortun, mi a dde's o berchen gronyn,
Ac i ymgaloni rywfaint eilwaith yn fy henaint,
A'r plant yn codi penau yn dysgwyl eu *share* hwythau,
Hwy ddywedent yn dêg fwynedd, ac a addawent i mi fawredd
Nes i mi roi pob cryglyn a feddwn i rhyngddyn'.
Yn ol i'r rhai'n wella, hwynt-hwy oeddent goega;
Rhoi'r ffon o'm llaw allan, i'm curo fy hunan.

Yn ol hyny, yn fy nig, y'mhen rhyw ychydig,
Mi es i garu morwyn ag oedd yn siambro ei hun,
Ar fedr cael rhyw faint o ymgeledd yn fy henaint,
A phobi i mi deisenau, a golchi fy nghrysau.
Mi fum yn dal wrth hòno, gan daer ddymuno
Arni ddyfod i'm canlyn, a hithau 'n gyndyn.
Hi a ddywedai fy mod i'n rhy oedranus, a hithau'n rhy nwyfus
Ond gan daered a fum i wrthi, mi a'i hudes i'm priodi.
Mi a fum gydâ hòno ddau fis, yn dal fy nwylo yn fy llewis,
Yn cael y byd a fynwn, a phob peth a ddymunwn,
A ngwala o dobacco, a hithau 'n talu am dano,
A'i losgi ei huuan o'r gorau, yn gystal a minnau:
Ond hi a flinodd yn o babur fy nghadw i'n segur,
Ac a ollyngodd ei thafod, fod ei harian wedi darfod.
Os byddai raid i mi godi allan i ennill arian,
I dalu am fwyd a thobacco, os byddai raid i mi wrtho,
'Roedd hyny'n chwedl arw, fuasai waeth iddi'n lladd i'n farw
Ni wnaethum i Oferddyn maith erioed ddiwrnod o waith.
Aeth hi i ffair neu farchnad, gadawodd finnau i warchad;
Pan aeth hi oddi cartrau, dechreuais chwilio ei choffrau,
Lle de's o hyd i'w choden, ac ynddi arian chweigen,
Mi ro'es yr agoriad dan y drws, ac i fyn'd 'roedd yn f'adws
I'r tafarn tirion, yn llawen fy nghalon,
Mor chwannog i'r fargen a'r gâth i'r llygoden.
Mi a glywn chwedl newydd yma, fod fy ngwraig i yn puteinia
A 'ngwawdio innau'n erchyll fy mod i'n gysgod gwŷr ereill:
Ac ar hyn o chwedel dyma hithau'n dyfod yn debyg i gythrel
Ac a'm t'rawai yn fy nhalcen oni phlygodd y fflagen,
Hi a'm lladd'sai yn y fan oni buasai fy achub yn fuan,
A hi a'm siarsodd yn giedd nad awn i byth i'w thuedd,
Ac nid aethum at y fenyw hyd y dydd heddyw;
Mi a ymroais yn ddiwyd i fyn'd i hela fy mwyd:
Pan elwyf i drê' neu bentrau, mi gâf glywed yr hogiau,
Yn gweiddi gwcw mêdd y gôg, daew gicwallt rhiwiog,
A'i gyrn ar ei goryn, yn blu ac yn edyn.
Ni châf fi ronyn o lonydd o ddrws i'w gilydd,
Ond fy mod i wedi ymgynnefino yrwan yn eu gwrando.
Dyna i chwi fy Hanes, a'm Coffa, a'm holl Gyffes,
Y dyn mwyaf ei Oferedd a fu erioed y'ngwlâd Gwynedd.
Mae'n ddiareb ar bob diriaid, mai diwedd hên yw cadw defaid
Fy niwedd innau, hên Oferddyn, yw bod yn siampl i bob dyn.

DIWEDD.

UNIV. COLL. OF WALES & MON. LIBRARY